# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Swyddogaethau eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru*

### 25 Datganiad o arfer

(1) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru baratoi datganiad o arfer sy'n disgrifio'r ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu arfer y swyddogaethau a ddisgrifir yn is-adran (4).

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) adolygu'r datganiad; a

(b) os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol ar ôl adolygiad, paratoi datganiad o arfer diwygiedig.

(3) Rhaid i'r datganiad o arfer gydweddu â'r egwyddorion a ddisgrifir yn is-adran (5).

(4) Y swyddogaethau yw'r rhai a roddir i'r Archwilydd Cyffredinol gan—

(a) adran 17 (gwybodaeth am welliannau a chynllunio gwelliannau: archwilio);

(b) adran 18 (asesiadau gwella);

(c) adran 19 (adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu);

**F1**(d) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(e) adran 24 (adroddiadau gwella blynyddol).

(5) Yr egwyddorion yw—

(a) y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn gyson yn y modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei swyddogaethau ymhlith gwahanol awdurdodau gwella Cymreig;

**F2**(b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 25 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(c) ei bod yn ddymunol bod swyddogaethau perthnasol y rheoleiddwyr perthnasol a swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a ddisgrifir yn adran 23(7) yn cael eu harfer yn gymesur er mwyn peidio â gosod baich afresymol ar awdurdodau gwella Cymreig;

(d) y dylai'r swyddogaethau yn is-adran (4) gael eu harfer gyda golwg ar gynorthwyo awdurdodau gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion y Rhan hon.

(6) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru anfon copi o ddatganiad neu ddatganiad diwygiedig a baratowyd o dan is-adran (1) at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(7) Os caiff y datganiad neu'r datganiad diwygiedig ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r datganiad neu'r datganiad diwygiedig.

(8) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi sylw i'r datganiad a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar o dan is-adran (7) wrth arfer y swyddogaethau a ddisgrifiwyd yn is-adran (4).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 25(4)(d) wedi ei hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), **aau. 113(g)**, 175(7); O.S. 2021/297, ergl. 2(b) (ynghyd ag erglau. 4, 5, 7-9)

**F2** A. 25(5)(b) wedi ei hepgor (1.4.2014) yn rhinwedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 85** (ynghyd ag Atod. 3 parau. 2, 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 25 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 25 mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, **ergl. 2(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 25 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16